Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(121)v5

**Datganiad Personol - Bethan Jenkins**

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - eitem wedi'i symud o 20 Mawrth 2013 (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio - eitem wedi'i symud o 20 Mawrth 2013 (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**4. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i Ethol Aelod i'r Pwyllgor Busnes**
NNDM 5196 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol

Lesley Griffiths (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Jane Hutt (Llafur Cymru).

**5. Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (15 munud)**

NDM5191 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 yn cael ei gwneud yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Chwefror 2013.

Dogfennau Ategol:
Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013
Memorandwm Esboniadol – *Ar gael yn Saesneg yn unig*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol -Ystyriaethau Blaenorol ar y Gorchymyn Gwreiddiol

**6. Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2011-12 (60 munud)**

NDM5189 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2011-12.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2013 ac mae ar gael drwy'r linc a ganlyn:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=243903&ds=3/2013

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'n benodol gasgliad y Prif Arolygydd mai 'presenoldeb yw'r agwedd wannaf ar les yn yr ysgolion o hyd'.

**Gwelliant 2 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen, a nodwyd gan y Prif Arolygydd, i roi mwy o gefnogaeth i athrawon wrth fynd ati i sicrhau bod safonau'n gwella.

**Gwelliant 3 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio mwy ar rannu arferion gorau mewn addysg ar gyfer torri'r cylch tlodi ac anfantais mewn ysgolion.

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y canfyddiadau yn yr adroddiad fod y gyfran o ysgolion a gafodd eu harolygu yn 2011-12 y barnwyd eu bod yn rhagorol neu'n dda yn is na'r flwyddyn flaenorol, gyda mwy o ysgolion uwchradd yn y pegynau perfformiad rhagorol neu anfoddhaol.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau a roddwyd i ysgolion er mwyn sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu'r cyfraddau uchel o absenoldeb ymhlith disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, er mwyn codi lefelau cyflawniad disgyblion o gefndiroedd tlotach gymaint â phosibl.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Estyn yn adrodd am ba mor effeithiol y mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a disgyblion o gefndiroedd mwy cefnog.

**Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder bod 54 y cant o ysgolion uwchradd a 48 y cant o ysgolion cynradd wedi cael eu nodi ar gyfer ymweliadau dilynol, sy'n fwy na'r llynedd.

**Gwelliant 8 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu meincnodau a thargedau cenedlaethol i fonitro'r cynnydd a wneir i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad.

**Gwelliant 9 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r 'disgyblion mwy galluog a thalentog yn cyflawni gystal yng Nghymru ag yn Lloegr', yn ôl yr adroddiad.

**Gwelliant 10 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi cryn bryder bod angen gwella safonau llythrennedd dros hanner yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd yng Nghymru, yn ôl yr adroddiad.

**Gwelliant 11 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth ganfyddiadau Estyn sy'n awgrymu bod 'perfformiad addysgu sydd o

safon gyffredin' yn bodoli.

**Gwelliant 12 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog y Gweinidog i egluro sut y gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar yr adroddiad hwn gan gorff hyd braich annibynnol.

**Gwelliant 13 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r methiannau yn system addysgol Cymru a nodwyd gan Estyn.

**7. Dadl: Llais y Cleifion - Cryfhau Rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned (60 munud)**

**NDM5193 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru i weddnewid, cryfhau a grymuso Cynghorau Iechyd Cymuned i ymgymryd â’u rôl yn y GIG yn yr unfed ganrif ar hugain.

**Dogfen Ategol:**
E-bostiwyd crynodeb o’r ymatebion i’r papur ymgynghori: Llais i Gleifion yng Nghymru i Aelodau’r Cynulliad ar 12 Mawrth 2013 ac mae ar gael drwy’r linc a ganlyn:

http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/voice/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu ‘i weddnewid, cryfhau a grymuso Cynghorau Iechyd Cymuned’ a rhoi yn ei le ‘ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned er mwyn eu cynorthwyo’

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai aelodau'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned sydd yn y sefyllfa orau i benodi eu Cadeirydd, yn hytrach na Gweinidogion Cymru.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'r canllawiau ynghylch rôl Cynghorau Iechyd Cymuned i fod yn 'llais i gleifion' yn y broses o ad-drefnu gwasanaethau.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn llais annibynnol i gleifion.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i Gynghorau Iechyd Cymuned chwarae rhan allweddol wrth fod yn llais cryf i gleifion a'r cyhoedd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael y cyllid a'r hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses o ad-drefnu GIG Cymru yn y dyfodol.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu Safonau Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Gymuned, yn seiliedig ar fodel yr Alban, er mwyn gwella rôl Cynghorau Iechyd Cymuned o ran sicrhau bod safbwyntiau'r cyhoedd yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol am ein GIG.

Gellir gweld Safonau Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Gymuned Gweithrediaeth yr Alban drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.scdc.org.uk/what/national-standards/

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru) - TYNNWYD YNOL**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wyrdroi ei phenderfyniad i sefydlu Powys fel Cyngor Iechyd Cymuned unedig, a fyddai'n peryglu'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol â chleifion a'r cyhoedd ym Mhowys.

## 8. Dadl Cyfnod 1 ar Fil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) - eitem wedi'i symud o 20 Mawrth 2013 (60 munud)

**NDM5192 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru).

Cafodd y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol eu gosod gerbron y Cynulliad ar 3 Rhagfyr 2012.

Cafodd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) ei osod gerbron y Cynulliad ar 7 Mawrth 2013.

**Dogfennau Ategol**
Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 9. Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) - eitem wedi'i symud o 20 Mawrth 2013 (5 munud)

**NDM5190 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), yn

cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 20 Mawrth 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Mawrth 2013 i'w hateb ar 19 Mawrth 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i undebau credyd. OAQ(4)0978(FM)

2. Peter Black (Gorllewin De Cymru):  A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd undebau credyd yng Nghymru yn y dyfodol. OAQ(4)0970(FM)

3. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc yn etholaeth Pontypridd. OAQ(4)0981(FM)

4. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):  A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau'r GIG yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0969(FM)

5. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):  A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau gofal dwys i fabanod newydd-anedig yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0973(FM)W

6. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am benderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch gofal dwys i fabanod yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0983(FM)W

**7. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau biwrocratiaeth i fusnesau yng Nghymru. OAQ(4)0979(FM)

**8. Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi economi de Cymru. OAQ(4)0984(FM)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch y pŵer dros bris alcohol yng Nghymru. OAQ(4)0980(FM)W

**10. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllun adfywio Môn a Menai. OAQ(4)0974(FM)W

**11. David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ba gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn adroddiad interim terfynol y 'Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd' a gyhoeddwyd ar 12 Mawrth. OAQ(4)0985(FM)

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i adfywio canol ein trefi a'n dinasoedd. OAQ(4)0971(FM)

**13. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y contract cenedlaethol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn addysg bellach. OAQ(4)0975(FM)

**14. Lynne Neagle (Tor-faen)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau tlodi yn Nhor-faen. OAQ(4)0982(FM)

**15. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ffigurau Cyfrifiad 2011 ynghylch yr iaith Gymraeg. OAQ(4)0972(FM)

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Mawrth 2013 i'w hateb ar 19 Mawrth 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

1. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o sut y mae penderfyniad Llywodraeth y DU i gymeradwyo'r cais ar gyfer fferm wynt Gorllewin Coedwig Brechfa yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio Cymru a pholisïau cynllunio lleol. OAQ(4)0242(ESD)

2. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion i adeiladu morlyn llanw ym Mae Abertawe. OAQ(4)0229(ESD)

3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiweddaru Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff. OAQ(4)0234(ESD)W

4. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran pryd y bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ar apêl ddiweddaraf Western Power Distribution i ddatblygu Cronfa Ddŵr Llanisien fel ystad o dai. OAQ(4)0238(ESD)

5. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw opsiynau ar gyfer gorfodi os ceir datblygiad anghyfreithlon ar dir comin. OAQ(4)0230(ESD)

6. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwarchod yr amgylchedd. OAQ(4)0232(ESD)

7. Lynne Neagle (Tor-faen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn hybu tryloywder yn system gynllunio Cymru. OAQ(4)0239(ESD)

8. Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd): Pa ddefnydd y mae'r Gweinidog yn ei wneud o gynlluniau bancio amser wrth gyflawni cyfrifoldebau ei bortffolio. OAQ(4)0231(ESD)

9. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth fynd i'r afael â chlefydau coed yng Nghymru. OAQ(4)0237(ESD)

10. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision Llwybr Arfordir Cymru. OAQ(4)0236(ESD)

11. Christine Chapman (Cwm Cynon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd anifeiliaid yng Nghwm Cynon. OAQ(4)0240(ESD)

12. Lynne Neagle (Tor-faen): A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo yn amddiffyn cymunedau yng Nghymru. OAQ(4)0241(ESD)

13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi morol Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0233(ESD)

14. Aled Roberts (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw waith sydd wedi'i wneud i ddatblygu un gwasanaeth cyngor a hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer cynllunio yng Nghymru. OAQ(4)0235(ESD)W

15. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli'r perygl o lifogydd yng Ngorllewin Clwyd. OAQ(4)0228(ESD)

## Gofyn i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

1. Lynne Neagle (Tor-faen): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd cynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer elfen dai y credyd cynhwysol yn ei chael ar bobl sy'n byw yn Nhor-faen. OAQ(4)0241(HRH)

2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael ar gyfer datblygu cyfleusterau amgueddfeydd. OAQ(4)0231(HRH)

3. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei Fframwaith Adfywio a lansiwyd yn ddiweddar, sef Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. OAQ(40233(HRH)

4. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bil treftadaeth arfaethedig. OAQ(4)0237(HRH)

5. Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd): Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i ddathlu gwaith Vernon Watkins, y bardd o Gymru.

OAQ(4)0234(HRH)

**6. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cynllun adfywio Môn a Menai. OAQ(4)0232(HRH)W

**7.Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru. OAQ(4)0229(HRH)

**8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio canol trefi ledled Cymru. OAQ(4)0227(HRH)

**9. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella ansawdd tai rhent preifat er mwyn rhoi gwell gwerth am arian. OAQ(4)0235(HRH)

**10. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am adolygiadau Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. OAQ(4)0240(HRH)W

**11. Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fframwaith adfywio newydd Llywodraeth Cymru, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. OAQ(4)0239(HRH)

**12. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae'r prosiect peilot Credyd Cynhwysol yn Nhor-faen yn ei chael o safbwynt tai. OAQ(4)0228(HRH)

**13. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i gynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â safleoedd treftadaeth yng Nghymru. OAQ(4)0230(HRH)

**14. Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bobl gartrefi o safon uchel sy'n gynnes, yn ddiogel ac yn defnyddio ynni'n effeithiol, ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, fel yr amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. OAQ(4)0236(HRH)

**15. Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadwraeth henebion hanesyddol a hynafol yn Sir Drefaldwyn. OAQ(4)0238(HRH)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 16 Ebrill a dydd Mercher 17 Ebrill 2013

Dydd Mawrth 23 Ebrill a dydd Mercher 24 Ebrill 2013

Dydd Mawrth 30 Ebrill a dydd Mercher 1 Mai 2013

*******************************************************************

Dydd Mawrth 16 Ebrill 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Gyrfa Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd (30 munud)
- Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 (15 munud)
- Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plant a Theuluoedd (15 munud)
- Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (5 munud)
- Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 17 Ebrill 2013 – 13:00

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 23 Ebrill 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Asesiadau o Farchnadoedd Tai Lleol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid (30 munud)
- Dadl: Gofal Diwedd Oes (60 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl Fer – Ken Skates (De Clwyd) (30 munud) – gohiriwyd ers 20 Mawrth 2013

Dydd Mercher 24 Ebrill 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Eluned Parrott (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 30 Ebrill 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Strategaeth Pysgodfeydd Cymru (30 munud)

**Dydd Mercher 1 Mai 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)